



7.0 Dod o hyd i arian a'i gael

Benthyciadau

Trosolwg

1. Beth yw benthyciad?
2. A yw cyllid drwy fenthyciadau'n briodol i'ch mudiad chi?
3. Manteision ac anfanteision
4. Darparwyr cyllid drwy fenthyciadau

Mae gallu'r trydydd sector i gael cyllid drwy fenthyciadau, a hygyrchedd y cyllid hwnnw i'r sector wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Gall benthyciadau fod yn fuddiol i fudiadau'r trydydd sector mewn nifer o wahanol ffyrdd, ond nid ydynt yn briodol i bob mudiad. Nod y daflen wybodaeth hon yw cynnig trosolwg byr ar gyllid benthyciadau er mwyn helpu mudiadau i benderfynu a yw hwn yn briodol iddynt.

Beth yw benthyciad?

Trafodiad ariannol yw benthyciad lle mae un parti ([y rhoddwr benthyciadau](#)) yn cytuno i roi swm o arian i barti arall ([y benthyciwr](#)) gyda'r disgwyliad y bydd yn cael ei ad-dalu'n llawn. Gall y rhoddwr benthyciadau ofyn am daliadau llog ar ben swm y benthyciad gwreiddiol.

Fel arfer, caiff telerau ac amodau trafodiad benthyciad eu nodi ar ffurf contract. Bydd y contract fel arfer yn nodi'r telerau ar gyfer ad-dalu, gan gynnwys unrhyw ffioedd trefnu, y swm sy'n ddyledus, y cyfraddau llog cytunedig a'r dyddiadau y mae ad-daliad yn ddyledus.

Yn syml, ffordd arall o gyllidebu mudiad yw benthyciadau, ac ni ddylid eu hystyried yn rhywbeth i gymryd lle grantiau.

A yw cyllid drwy fenthyciadau'n briodol i'ch mudiad chi?

Yn yr un modd â phob math o ddulliau creu incwm, dylai mudiadau feddwl yn strategol wrth ymgymryd â gweithgaredd newydd, e.e. [cael benthyciad](#).

Cyn ystyried ymgeisio am fenthyciad, dylai mudiadau fod mewn sefyllfa lle mae cynlluniau busnes ac ariannol trwyadl wedi dangos gallu'r mudiad i greu digon o incwm i dalu unrhyw ad-daliadau posibl ar fenthyciad.

Gellir defnyddio'r tri phwynt trafod isod i gynorthwyo mudiad i bennu a yw cyllid drwy fenthyciad yn opsiwn:

1. Ar gyfer beth fydd y benthyciad yn cael ei ddefnyddio?

Gellir defnyddio cyllid drwy fenthyciad at amryw o ddibenion, gan gynnwys:

- Prynu eiddo, tir, peiriannau neu gyfarpar.
- Adnewyddu eiddo sydd ganddo eisoes.
- Rheoli problemau llif arian a chylchoedd incwm o grantiau.
- Sefydlu prosiectau neu fentrau newydd.
- Buddsoddi yn nhwf y mudiad.

2. Pa fudd a gaiff y mudiad o'r benthyciad?

Dylai mudiad sy'n ystyried cyllid drwy fenthyciad fod yn eglur ynghylch diben y benthyciad:

- A fydd y benthyciad yn galluogi'r mudiad i gyflawni ei nodau a'i amcanion yn well?
- A fydd y benthyciad yn helpu i wella'r gwasanaethau a ddarperir neu i gyrraedd mwy o fuddiolwyr?
- A fydd y benthyciad yn cyfrannu at gynaliadwyedd y mudiad yn y dyfodol drwy roi mwy o gyfleoedd i greu incwm?

3. A oes strwythurau a systemau priodol gan y mudiad?

Dylai mudiad allu profi fod ganddo'r gallu i gael benthyciad a'i ad-dalu:

- A yw dogfen lywodraethu'r mudiad yn ei alluogi i fenthycio arian ac o bosibl cynnig asedau fel sicrwydd?
- A oes gan y mudiad systemau ariannol cadarn ar waith i reoli unrhyw fuddsoddiad o'r fath?
- A yw'r mudiad yn un corfforedig sy'n gallu diogelu'r ymddiriedolwyr neu'r cyfarwyddwyr rhag unrhyw atebolrwydd personol a allai gael ei gysylltu â'r benthyciad?

Manteision ac anfanteision

Mae manteision ac anfanteision dros ddefnyddio benthyciadau fel modd o gyllido mudiad. Dylid ystyried y rhain hefyd cyn cymryd unrhyw gamau:

Manteision

- **Gellir eu trefnu'n gyflymach na grantiau** – mae'r prosesau ymgeisio a phenderfynu'n llawer cyflymach fel arfer.
- **Nid ydynt mor gystadleuol â chyllid grant** – gellir cymeradwyo ceisiadau am fenthyciad yn ôl eu teilyngdod yn hytrach nag yn ôl pa mor agos y maen nhw'n bodloni meini prawf cyllidwr.
- **Maen nhw'n fwy hyblyg na chyllid grant** - gellir teilwra ceisiadau am fenthyciad i'r hyn sy'n gweddu orau ag anghenion y mudiad yn hytrach na meini prawf cyllidwr grant.
- **Llai o fonitro ac adrodd sy'n ymwneud ag allbynnau na chyllid grant** – ond gallai darparu gwybodaeth ariannol amserol fod yn amod o'r benthyciad.
- **Fel arfer, caiff benthyciadau eu talu ymlaen llaw, nid ar ffurf rhandaliadau neu ôl-daliadau fel cyllid grant.**

Anfanteision

- Cyfraddau llog amrywiol.
- Gall fod angen talu ffioedd trefnu uchel weithiau.
- Ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gytundeb wedi'i rwymo'n gyfreithiol.
- Cynnig ased fel sicrwydd.

Darparwyr cyllid drwy fenthyciadau

Ar wahân i fenthycwyr masnachol y stryd fawr, mae nifer fawr o fudiadau'n cynnig benthyciadau sydd wedi'u teilwra ar gyfer mudiadau'r trydydd sector. Mae llawer o ymddiriedolaethau elusennol mawr hefyd wedi dechrau arbrofi gyda chynnig cyllid drwy fenthyciadau yn ddiweddar.

Mae rhestr isod o rai darparwyr sy'n cynnig cyllid drwy fenthyciad sy'n benodol ar gyfer y trydydd sector. Gellir cael rhagor o wybodaeth am bob mudiad drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

Big Issue Invest

Ffôn: 020 7526 3434

www.bigissueinvest.com

enquiries@bigissueinvest.com

Charities Aid Foundation – Venturesome

Ffôn: 0207 832 3026

www.cafonline.org/venturesome

Charity Bank

Ffôn: 01732 774 050

www.charitybank.org

loanenquiries@charitybank.org

Cyllid Cydweithredol a Chymunedol

Ffôn: 01179 166 750

<https://coopfinance.coop/>

info@coopfinance.coop

Banc Datblygu Cymru

Ffôn: 0800 587 4140

<https://developmentbank.wales/cy>

info@developmentbank.wales

Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru – CGGC

Ffôn: 0300 111 0124

<https://wcva.cymru>

sic@wcva.cymru

Triodos Bank

Ffôn: 0800 328 2181

www.triodos.co.uk

businessbanking@triodos.co.uk

Unity Trust Bank

Ffôn: 0845 140 1000

www.unity.co.uk

us@unity.co.uk



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.